CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION – CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 17 Mai 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhosgadfan**

a)	**Croeso** Cafwyd croeso gan Nerys Evans yr Is-Gadeirydd. Yn bresennol roedd Elwyn Jones, Jason Hunt, Michelle Williams, Elin Evans, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas, Cyng. Aeron M Jones.
b)	**Ymddiheuriadau** Cafwyd ymddiheuriadau gan Tom Ellis a Rhys Owen. Ddim yn bresennol – Neal Williams
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
d)	**Cadarnhau cofnodion 19 Ebrill 2017 a materion yn codi** Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir, cynnigwyd eu bod yn gywir gan MW ac eilwyd hynny gan GLlW.
e)	**Materion i'w trafod:** **Cyfarfod Blynyddol** a) Etholiad Nodwyd fod neb wedi sefyll yn erbyn yr ymgeiswyr ac felly Aelodau yn parhau fel a ganlyn: Dinas – Rhys Owen, Elin Evans, Tom Ellis Rhostryfan – Elwyn Jones, Jason Hunt, Nerys Evans, Gwilym Ll Williams Rhosgadfan – Neal Williams, Michelle Williams, Gwilym V Thomas. b) Sedd Wag Dinas Cadarnhawyd fod sedd wag yn Dinas. Nododd y Cyng. Aeron M Jones ei fod yn awyddus i barhau gyda'r sedd hon ond ni roddwyd y ffurflenni i mewn o fewn yr amserlen etholiad. Bydd felly angen Cyfethol Aelod i'r sedd wag Dinas ac y bydd raid rhoi rhybydd i fyny yn yr hysbysfyrddau. Clerc i roi rhybydd i fyny gan nodi dyddiad cau cyn y cyfarfod nesaf fel fod modd gwneud penderfyniad yn cyfarfod Mehefin. Nododd AMJ y byddai'n rhoi cais i mewn. c) Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Cadeirydd - Diolchwyd i Rhys Owen am gadeiro dros y flwyddyn. Rhoddwyd cynnig gan EE fod Nerys Evans yr Is Gadeirydd gymryd drosodd fel Cadeirydd, eilwyd hynny gan MW. Cadarnhawyd felly mai Nerys Evans fydd y Cadeirydd am 2017/18. Is Gadeirydd – Rhoddwyd gynnig gan GVT fod MW yn cymryd rol yr Is-Gadeirydd MW yn cael ei chynnig gan GVT. Cafodd y cynnig ei eilio gan EE. d) Enwebu Swyddogion i Bwyllgorau 2017/18 Penderfynwyd ar gadw'r rhestr fel ag y mae yn bresennol, sef: **Pwyllgor gweinyddol a chyllid:** Elwyn Jones Jason Hunt Michelle Williams Aeron M Jones Les Williams **Pwyllgor y Fynwent:** Gwilym Lloyd Williams Nerys Evans

Michelle Williams
Gwilym V Thomas

Pwyllgor goleuadau a llwybrau:
Tom Ellis
Gwilym V.Thomas
Elin Evans
Neal Williams

Cynrychiolwyr y cyngor ar bwyllgorau ychwanegol:
Nerys Evans – Llywodraethwyr Ysgol Rhostryfan
Neal Williams – Llywodraethwyr Ysgol Rhosgadfan
Tom Ellis - Llywodraethwyr Ysgol Felinwnda
Jason Hunt – cynrychiolydd y cyngor ar bwyllgor pentre Rhostryfan

Cyfarfod Misol

e) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos
Yn anoffodus, nid oedd yn bosib i neb fynychu y cyfarfod diwethaf. Bydd y Clerc yn holi am ddiweddariad gan OP Huws.

f) Wal y fynwent
Gan fod y pecyn tendro yn barod, cafwyd trafodaeth o amgylch y bwriad o fynd allan i dendro am y gwaith o godi wal o amgylch y darn tir newydd. Nododd rhai bryderon am fynd allan i gael prisiau yn rhu fuan a chanfod fod y pris yn llawer mwy na'r hyn sydd ar gael gan y Cyngor Cymuned a wastio amser contractwyr. Mae tua £12,000 wedi ei gynilo hyd yma tuag at y gwaith a mae'r lefel praesept wedi ei godi er mwyn codi rhagor o arian. Ond, ni fydd yn bosib gwneud ceisiadau grant na chael syniad o faint o arian sydd angen ei godi nes y byddwn wedi cael prisiau. Cynnigodd GVT y byddai'n cael bras syniad o brisiau cerrig ar gyfer y gwaith ac yn adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf. Bydd hefyd angen ystyried rhoi cais cynllunio i mewn ar gyfer creu adwy newydd i gael mynediad at y safle.

g) (GLLW) – Sgwar Rhos Isaf – y broblem gyda'r lon yn suddo yn parhau.
Clerc wedi derbyn ymateb gan Ian Morgan, Peiriannydd Arfon yn nodi'r canlynol: "mae gwaith gwelliannau traeniau dwr wedi ei raglennu i'r lleoliad flwyddyn ariannol yma. Mae'r ffordd yn mynd i gael ei gau yn swyddogol i gyflawni'r gwaith traeniau dwr. Felly mi wnawn drefnu gwaith i ailosod gorchuddion Dwr Cymru a chlytio'r ffordd i gael gwared ar y pant yn sgil hyn. Dylai roi datrysiad parhaol i'r broblem o ganlyniad."

h) (MW) – Cwyn wedi ei dderbyn, heibio Bryn Gro i fyny, defaid yn mynd o dan y giat achos mae bwlch mawr yn y gwaelod, o ganlyniad mae defaid yn dod yn ol i'r pentref.
Clerc wedi adrodd wrth Cymdeithas y Porwyr a wedi derbyn ymateb yn nodi eu bod ym ymwybodol o'r bwlch o dan y giat ac y byddent yn ceisio datrys y mater yn fuan.

i) (NE) – Cwyn wedi ei dderbyn - Tai Bro Wyled, mae llwybr rhwng rhif 12 a 13 ond mae rhywun yn parcio car yno.
Clerc wedi adrodd wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd, maent wedi cadarnhau y byddent yn edrych mewn i'r mater ond maent angen rhif y cerbyd, Clerc i yrru'r manylion ymlaen.

j) (EJ)- Ar y lon rhwng Llwyn Onn a Dolwar, Rhostryfan, mae tyllau ofnadwy yn y lon. Clerc wedi derbyn ymateb gan Ian Morgan, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi "Nid oes gwaith mawr wedi ei raglennu ar gyfer y ffordd yn ystod y flwyddyn ariannol yma. Ond, mi gaf yr arolygwr ffyrdd i'w archwilio a threfnu unrhyw waith trwsio angenrheidiol."

6.	**Derbyn Adroddiadau** Dim i'w nodi
7.	**Is-bwyllgorau** Nodwyd fod yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod heno, yn bresennol roedd EJ, MW a JH. Roedd yr aelodau yn fodlon fod y llyfrau i gyd yn balansio, pob taliad wedi ei gyfrifo amdano a'r ffurflen flynyddol wedi ei chwblhau. Rhoddwyd diolch i'r Clerc am y gwaith trylwyr ar y cyfrifon. Y cam nesaf bydd gyrru'r llyfrau ymlaen at John Roberts yr archwiliwr mewnol.
8.	**Materion Ariannol** **a)** Adroddiad Ariannol Derbyniwyd yr adroddiad ariannol. **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 15 Mai 2017** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **9,571.84** + Praesept 11,600.00 **Balans ar derfyn busnes 15 Mai 2017 21,171.84** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **4,602.95** - 101020 Caryl E Lewis – Cyflog Ebrill 438.51 - 101019 Canolfan Bro Llanwnda 15.00 **Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2017: 4,149.44** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 17 Mai 2017:** Cyflog Clerc Mai 531.47 Cyllid y Wlad Mai 122.00 Wyn Williams 386.00 Cyngor Gwynedd 1.00 **Cyfanswm 1,040.47** b) Cyflog Clerc Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn y cyfraddau cyflog newydd ar gyfer 2017/18 gan Unllais Cymru a hefyd fod addasiad wedi ei wneud i gyfradd cyflogau 2016/17. Os ydy Aelodau yn cytuno i gyflog y Clerc gynyddu o 1 hicyn fel y mae wedi nodi yn cytundeb gwaith bydd yn mynd fyny o gyflog pwynt 19 i pwynt 20, sef cynyddu o £495.01 i £523.45. Hefyd, os yn cytuno i addasu y cyflog yn unol ar cyfraddau ar gyfer 2016/17 bydd yn golygu fod y Clerc wedi ei than-dalu ac y bydd angen ol-daliad o £59.20. Cytunodd Aelodau yn unfrydol i'r cynnydd yn y cyflog ar gyfer 2017/18 ac i wneud ol-daliad ar gyfer cyflog 2016/17. c) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol Nododd y Clerc y bydd y llyfrau rwan yn cael eu pasio i'r archwiliwr mewnol.
9.	**Materion Cynllunio** Cais C17/0435/24/LL Bryn Gwyrfai, Rhostryfan, Estyniad ac addasiadau Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Unllais Cymru – Enwebu Nerys Evans fel Cadeirydd i fynd i'r cyfarfodydd chwarterol

	rhanbarthol. Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd – Nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn gofyn am enwebiadau i eistedd ar y Pwyllgor. Cytunwyd i beidio a enwebu o'r Cyngor hwn.
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** TE – Coed a gwrych wedi eu torri yn fler ger stesion Dinas. GVT – Yn 2014 mi roedd Cyngor Gwynedd wedi datgan y byddent yn gwneud y lon ger Gwelfor, Rhosgadfan yn 'one way' ond ddim byd wedi digwydd. GVT – Llwybr Pen y Muriau, Rhosgadfan - darn bach angen ei dorri i fyny at y giat. GVT – Prosiect Cymdeithas y Porwyr – angen rhagor o wybodaeth ar y prosiect. EE – Torri gwair yn gyffredinol angen sylw, hefyd mae'r broblem sbwriel a llwybr cerdded yn culhau ar y lon rhwng Ffrwd Cae Du a Dinas yn parhau. GWLL – Pen y Groeslon hyd at Sgwar Bryn Melyn (Rhos Isaf), mae gwrych a coed yn gor dyfu ac yn culhau'r lon. EJ – Cyngor – angen torri coed lle mae na arwyddion pwysig fel troeadau. EJ - Bont o dan carreg lwyd yn cael ei ail adeiladu. Yn gwario £18k ar y bont, angen diolch i'r cwmni Rheilffordd, mae nhw'n buddsoddi arian yn y gymuned. **Dyddiad: 21 Mehefin 2017** **Lleoliad: Ysgol Rhostryfan**